

# GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

# Hysbysu Heddlu Gogledd Cymru am Dreisio A Throseddau Rhywiol

Yn gwneud Gogledd Cymru’r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

PAN FYDD YN LLAI PWYSIG NA 999
101
WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

Cymru/Wales
CrimeStoppers.
0800 555 111
100% dienw. Bob tro.
100% anonymous. Always.

# Hanes y Llyfryn Hwn

Diolch am ein hysbysu am drosedd rywiol neu am gynorthwyo gyda'n hymchwiliad os ydy rhywun arall wedi ein hysbysu ni ar eich rhan. Rydym yn gwybod ei fod yn beth dewr ac yn gallu bod yn anodd siarad â'r heddlu.

Mae'r llyfryn hwn yn egluro ymchwiliad yr heddlu a'r hyn gallwch ei ddisgwyl. Nid oes rhaid i chi ddarllen y llyfryn hwn i gyd ar unwaith. Cadwch y llyfryn a dychwelwch ato wrth i'r ymchwiliad symud ymlaen.

Holwch eich swyddog heddlu os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymchwiliad. Gallwch hefyd gael gwybodaeth gan weithiwr cymorth o'r enw 'ISVA'. Ewch i wybod mwy am ISVAs a gwasanaethau cymorth eraill ar dudalennau 5-8.

## Pethau defnyddiol i'w nodi

Bydd y swyddog sy'n gyfrifol am eich diweddaru yn ysgrifennu eu manylion cyswllt isod. Ceir cysylltiadau defnyddiol eraill ar dudalen 15.

| | |
|---|---|
| Enw'r swyddog heddlu sy'n ymchwilio: | |
| Cyfeiriad e-bost: | |
| Rhif ffôn: | |
| Enw'r swyddog cyswllt yn dilyn y drosedd rywiol (SOLO) | |
| Cyfeiriad e-bost: | |
| Rhif ffôn: | |

Bydd yr heddlu yn rhoi 'rhif cyfeirnod trosedd' (CRN) i'ch achos. Mae'r rhif unigryw hwn yn cynorthwyo swyddogion chwilio am eich achos yn eu ffeiliau. Felly mae'n ddefnyddiol ei gael os ydych yn ffonio'r heddlu am eich achos.

Gofynnwch am eich Rhif Cyfeirnod Trosedd a'i ysgrifennu yma:

| | |
|---|---|
| Rhif Cyfeirnod Trosedd (CRN): | |

Efallai na fyddwch angen ISVA (Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol), neu efallai byddwch angen disgwyl cyn cael un. Ond oes gennych ISVA, gallwch ysgrifennu eu manylion cyswllt yn y blwch isod.

| | |
|---|---|
| Enw'r ISVA: | |
| Cyfeiriad e-bost: | |
| Rhif ffôn: | |

# Cynnwys

**Map o'r broses ymchwilio** ....... 1

**Cael cymorth a chyngor** ....... 2

- Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs). ....... 2
- Cymorth gyda siarad â'r heddlu ....... 3
- Gwasanaethau cymorth cenedlaethol ....... 4
- Gwasanaethau cymorth lleol ....... 5

**Yr hyn sy'n digwydd ar ôl hysbysu'r heddlu** ....... 6

- Cyswllt cyntaf gyda'r heddlu ....... 6
- Fforenseg ac archwiliad meddygol ....... 6
- Dechrau'r ymchwiliad heddlu ....... 7

**Eich cyfweliad** ....... 8

**Gweddill yr ymchwiliad (ar ôl eich cyfweliad)** ....... 9

- Tystiolaeth o'ch ffôn a gwybodaeth breifat arall ....... 9
- Yr ymchwiliad heddlu parhaus ....... 10

**Penderfyniadau'r heddlu a chanlyniadau'r achos** ....... 11

- Sut mae'r heddlu'n penderfynu ar yr hyn i'w wneud gyda'ch achos ....... 11
- Beth sy'n digwydd os nad ydy GEG yn 'cyhuddo' rhywun o dan amheuaeth (yn mynd i'r llys). ....... 13
- Mynd i'r llys (achos) ....... 14

**Canlyniadau posibl eraill** ....... 16

- Defnyddio 'gorchymyn sifil' er mwyn atal yr un o dan amheuaeth rhag cysylltu â chi ....... 16
- Ymgeisio am iawndal ....... 16

**Dolenni a chysylltiadau defnyddiol** ....... 17

- Sut i roi adborth neu godi pryderon ....... 17
- Dolenni am fwy o wybodaeth ....... 18

# Y Broses Ymchwilio

## Adroddiad i'r heddlu

### Os ydy'r heddlu'n penderfynu fod angen 'ymateb cyntaf':

Ymateb Cyntaf (t.6)

Mae swyddogion y Tîm Ymateb yn gwirio eich bod yn ddiogel ac yn casglu unrhyw dystiolaeth fforensig. Efallai gwnânt fynd â chi am archwiliad meddygol fforensig yn y ganolfan atgyfeirio ymosodiad rhywiol (SARC).

## Ymchwiliad heddlu (tt. 7-11)

- Mae swyddog o'r tîm ymchwilio yn cysylltu â chi er mwyn egluro'r broses (t.7)
- Gall casglu'r holl dystiolaeth gymryd amser hir. Bydd yn bwysig cael cymorth (tt. 2-5)
- Mae'r ymchwiliwr heddlu yn anfon yr achos at uwch swyddog er mwyn ei adolygu. Mae uwch swyddog yn penderfynu os gellir anfon eich achos at Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG) (t.11)

## Prif ganlyniadau ymchwiliad yr heddlu (t.11)

1. Mae'r heddlu'n penderfynu peidio anfon eich achos at Wasanaeth Erlyn y Goron ac 'ni weithredir ymhellach' yn erbyn yr un o dan amheuaeth.
2. Mae'r heddlu yn anfon eich achos at Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG). Mae GEG yna'n adolygu eich achos ac yn penderfynu os ddylid mynd â'r un o dan amheuaeth i'r llys.

**Prif ganlyniadau os ydy GEG yn adolygu achos (t.11)**

1. Mae GEG yn penderfynu peidio mynd â'r un o dan amheuaeth i'r llys a 'dim gweithredu ymhellach' yn eu herbyn.
2. Mae GEG yn meddwl fod bylchau yn y dystiolaeth ac yn gofyn i'r heddlu gasglu mwy o wybodaeth.
3. Mae GEG yn penderfynu mynd â'r un o dan amheuaeth i'r llys. Gelwir hyn yn eu 'cyhuddo' nhw.

## Prif ganlyniadau os cyhuddir un o dan amheuaeth (tt.12-13)

1. Yr un o dan amheuaeth yn euog (t.12)
2. Yr un o dan amheuaeth yn pledio'n euog. Mae'r achos yn mynd i'r llys ac fe ganfyddir yr un o dan amheuaeth yn euog (t.13)
3. Yr un o dan amheuaeth yn pledio'n ddieuog. Mae'r achos yn mynd i'r llys ac fe ganfyddir yr un o dan amheuaeth yn ddieuog (t.13)

## MAE GENNYCH HAWLIAU DRWY GYDOL Y BROSES YMCHWILIO

Mae gennych hawl i gymorth a thriniaeth penodol yn ystod yr ymchwiliad heddlu.

Amlinellir y rhain yn y Cod Ymarfer Dioddefwyr (a elwir weithiau'n VCOP), y gallwch ei ddarllen drwy chwilio: bit.ly/victims-code

Mae llyfryn defnyddiol hefyd o'r enw O Hysbysu i'r Llys. Mae'r llyfryn yn egluro eich hawliau yn fanwl ac yn rhoi enghreifftiau a all eich cynorthwyo chi eu deall nhw. Chwiliwch: bit.ly/report-to-court

# Cael Cymorth a Chyngor

## YMGYNGHORWYR TRAIS RHYWIOL ANNIBYNNOL (ISVAS)

**Mae ISVA yn ymgynghorydd arbenigol ar gyfer pobl sydd wedi profi trais rhywiol.**

**Gall ISVAs eich cynorthwyo chi mewn llawer o ffyrdd. Er enghraifft, gallent:**

- Egluro effaith trais rhywiol ar eich iechyd a lles.
- Eich cynorthwyo chi ddeall y broses cyfiawnder troseddol a'ch hawliau o'i mewn.
- Eich cynorthwyo chi gael mynediad at wasanaethau eraill, fel tai neu wasanaethau cyffuriau ac alcohol. e.e., gall ISVA gynorthwyo archebu apwyntiadau neu anfon ffurflenni atgyfeirio.
- Cysylltu â'r heddlu a gwasanaethau eraill ar eich cyfer, fel nad oes rhaid i chi siarad â llawer o bobl wahanol (gelwir hyn yn 'bwynt cyswllt unigol')
- Eich cynorthwyo chi brosesu eich teimladau am ymchwiliad yr heddlu.

  Sicrhewch eich bod yn cael mynediad at unrhyw gymorth angenrheidiol yn y system cyfiawnder troseddol, er enghraifft 'mesurau arbennig (chwiliwch: bit.ly/special-measures am fwy).
- Eich cynorthwyo chi i godi unrhyw bryderon sydd gennych am yr ymchwiliad heddlu.
- Gall ISVAs fynd i'r llys gyda chi os ydy'r achos yn mynd i'r llys, mewn ymweliadau cyn yr achos, cefnogaeth yn ystod yr achos a dedfrydu.

**Mae'r hyn all ISVAs ei wneud wedi'i gyfyngu. Er enghraifft:**

- Mae gwasanaethau ISVA yn wahanol i gwnsela neu therapi (er y gallent eich cyfeirio chi at y gwasanaethau hyn, ac yn aml mae ganddynt gwnselwyr yn eu sefydliad).
- Ni all ISVAs siarad am y dystiolaeth yn eich achos, ac ni allent fod yn yr ystafell pan ydych yn dweud wrth yr heddlu am yr hyn ddigwyddodd.
- Nid ydy ISVAs yn gyfreithwyr. Gallent roi gwybodaeth i chi am y system cyfiawnder troseddol, ond ni ddylent roi cyngor cyfreithiol i chi.

**Sut i gael cymorth ISVA neu hunan-gyfeirio:**

- Dylai eich swyddog heddlu ddweud wrthych chi am ISVAs a gofyn os ydych eisiau cael eich atgyfeirio am gymorth ISVA. Os nad ydynt wedi gwneud hyn, holwch am drafod ISVAs.
- Gallwch newid eich meddwl am gael cymorth ISVA unrhyw dro. Os ydych yn gwrthod cymorth ISVA i ddechrau, gallwch ofyn i'r heddlu eich atgyfeirio chi wedyn.
- Nid oes rhaid i chi hysbysu'r heddlu neu'n cynorthwyo ni gyda'n hymchwiliad er mwyn cael cymorth ISVA. Gallwch ofyn am gymorth ISVA a hunangyfeirio heb gymorth yr heddlu ar:

Amethyst – Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol –
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - www.nhs.wales

Rhif llinell ffôn hunanatgyfeiriad SARC ydy 08081563658

# Cael Cymorth a Chyngor

Efallai fod gennych ddiddordeb mewn cymorth gan Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA). Er mwyn gwybod mwy, chwiliwch: bit.ly/IDVAs

Mae argaeledd ISVA neu IDVA yn dibynnu ar lle rydych yn byw a manylion eich achos. Ond gallwch ddweud wrth yr heddlu os oes gennych flaenoriaeth ynghylch pa fath o weithiwr cymorth y buasech yn ei hoffi.

## CYMORTH GYDA SIARAD Â'R HEDDLU



Rydym yn deall y gall fod yn anodd siarad am gam-drin rhywiol, yn enwedig gyda'r heddlu. Gall fod yn ddefnyddiol cael rhywun dibynadwy gyda chi.

**Mae gennych yr hawl cael cymorth gan rywun o'ch dewis chi** wrth hysbysu'r heddlu ac yn ystod y cyfweliad, oni bai ein bod yn meddwl ei bod er budd gorau i chi neu eich bod yn dystion yn yr ymchwiliad.

Ni all eich cynorthwywr siarad ar eich rhan neu gymryd rhan yn yr holi, ond gallent fod yn wyneb cyfeillgar a gofyn am egwyl neu gymorth ymarferol arall, e.e. diod.



Mae **cyfryngwr** yn weithiwr cymorth cyfathrebu a all gynorthwyo dioddefwyr ddeall y cwestiynau sy'n cael eu holi.

Gall y cyfryngwr ddweud wrth yr heddlu a'r llys am y ffordd orau i siarad â chi. Gallent eistedd gyda chi yn y cyfweliad heddlu ac yn y llys, er mwyn eich cynorthwyo chi gyfathrebu.

Gofynnwch i'ch swyddog heddlu am gyfryngwr os:

- Rydych o dan 18 oed.
- Rydych yn cael trafferth cyfathrebu gyda phobl, e.e. oherwydd eich bod yn anabl neu â phroblem iechyd meddwl.



Gall **dehonglwr** gynorthwyo pobl nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus siarad Saesneg. Gwnaiff y dehonglwr gyfieithu rhwng Saesneg a'ch iaith o ddewis (gan gynnwys iaith arwyddion) wrth siarad â'r heddlu.

**Mae gennych hawl cael dogfennau pwysig am y cyfweliad neu'r llys wedi'u cyfieithu i'ch dewis iaith.** Mae enghreifftiau o ddogfennau a ddylid eu cyfieithu yn cynnwys:

- Cydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r drosedd hysbys.
- Unrhyw ddogfennau y gofynnir i chi amdanynt yn y cyfweliad neu yn y llys.
- Llythyrau am amser, dyddiad a lleoliad yr achos.
- Llythyrau am ganlyniad eich achos, a'r rhesymau am y penderfyniad.
- Ymatebion i unrhyw gŵyn neu geisiadau i adolygu eich achos.

# Cael Cymorth a Chyngor

## GWASANAETHAU CYMORTH CENEDLAETHOL ANNIBYNNOL

**Llinell Gymorth Genedlaethol Rape Crisis**

Ar agor 24/7 bob dydd o'r flwyddyn

Sgwrs we: rapecrisis.org.uk

Llun - Iau: 1pm – 5pm, 6pm – 9pm
Gwener: 2pm – 5pm

**Gwasanaethau ar gael:**

- Llinell Gymorth genedlaethol ar gyfer unrhyw un dros 16 oed neu drosodd sydd wedi cael ei effeithio gan unrhyw fath o drais rhywiol.
- Llinellau cymorth ar gyfer cefnogaeth emosiynol
- Dolenni gwefan i wasanaethau eraill e.e. ISVAs.

**Llinell Gymorth Survivors Trust: 0808 801 0818**

Ar agor bob dydd (gwiriwch y wefan am amseroedd)

Sgwrs we: thesurvivorstrust.org

Llun - Iau: 1:30pm – 3pm, 6pm – 8pm
Sadwrn: 10am – 1pm
Sul: 5pm – 8pm

**Gwasanaethau ar gael:**

- Llinell gymorth genedlaethol i unrhyw un 16 oed neu drosodd sydd wedi'u heffeithio gan unrhyw fath o drais rhywiol.
- Yn gwahodd goroeswyr trawsrywiol ac anneuaidd
- Mae llinellau cymorth ar gyfer cymorth emosiynol.
- Dolenni gwefan i wasanaethau eraill, e.e. ISVAs.

**Llinell gymorth Refuge DA: 0808 2000 247**

Ar agor 24/7 bob dydd o'r flwyddyn

Sgwrs we: refuge.org.uk

Dydd Llun - Dydd Gwener: 3pm – 10pm

**Gwasanaeth dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain**

Dydd Llun - Dydd Gwener: 10am – 6pm.

**Gwasanaethau ar gael:**

- Cymorth a chyngor i ferched a genethod sy'n profi cam-drin domestig, os ydych wedi'u gadael neu ddim.
- I ddynion yn profi cam-drin domestig, ewch ar: https://mensadviceline.org.uk/

# Cael Cymorth a Chyngor

**Chwiliwch am gymorth arbenigol**

Goroeswyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig: imkaan.org.uk/get-help

Pobl LHDT+ yn profi unrhyw fath o gam-drin: galop.org.uk/get-help/

Goroeswyr anabl a niwroamrywiol: Respond.org.uk

Goroeswyr gwrywaidd a'u cynorthwywyr: malesurvivor.co.uk/

## GWASANAETHAU CYMORTH LLEOL ANNIBYNNOL

**RASASC Gogledd Cymru (Canolfan Cymorth Trais a Cham-drin Rhywiol)**

Sgwrs we: Ffôn: 01248 670628

E-bost: info@rasawales.org.uk

Gwefan: www.rasawales.org.uk

Gwiriwch y wefan am amseroedd agor.

**Gwasanaethau ar gael:**

- Yn darparu cymorth ac ymyrraeth arbenigol i blant ac oedolion yng Ngogledd Cymru sydd wedi profi unrhyw fath o gam-drin rhywiol a/neu drais rhywiol pan oeddent yn blentyn.

**Stepping Stones Gogledd Cymru**

Ffôn: 01978 352 717

www.steppingstonesnorthwales.co.uk

Gwiriwch y wefan am amseroedd agor.

E-bost: info@steppingstonesnorthwales.co.uk

**Gwasanaethau ar gael:**

- Cwnsela unigol a grŵp i oedolion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol pan oeddent yn blant.
- ISVAs, cwnsela a therapi, cymorth emosiynol

**Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)**

1-3 Bryn Eirias Close, oddi ar Elian Road, Bae Colwyn, Conwy LL29 8AB

Ffôn: 0808 1563 658

Dolen we -

Amethyst - Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (nhs.wales)

Gwiriwch y wefan am amseroedd agor.

**Gwasanaethau ar gael:**

- Gwasanaethau meddygol, fforensig ac iechyd rhywiol cyfrinachol.
- ISVAs, CYPSVAs, cwnsela a therapi, cymorth emosiynol.

# Yr Hyn Sy'n Digwydd ar ôl Hysbysu'r Heddlu

## CYSWLLT CYNTAF GYDA'R HEDDLU

Bydd achosion hysbys i'r heddlu dros y ffôn yn cael eu dyrannu fel arfer i swyddog mewn lifrai yn y lle cyntaf.

Rôl y swyddog mewn lifrai ydy gwirio os ydych mewn perygl neu os ydy'r heddlu angen casglu tystiolaeth yn gyflym.  Ni wnaiff y swyddog hwn ymchwilio'r drosedd am dreisio a throseddau rhywiol difrifol.

Gall achosion hŷn (ddim yn ddiweddar) gael eu cyfeirio'n syth at ein tîm treisio cadarn sef Amethyst.

Mae holl droseddau treisio ac ymgais ar dreisio yn cael eu hymchwilio gan ein Tîm Amethyst.  Cewch ymchwilydd a SOLO.

Gwnaiff CID ymchwilio troseddau rhywiol difrifol eraill

**Mae'n bwysig eich bod yn teimlo'n gyfforddus gyda ni**

Dywedwch wrthym ni os oes rhywbeth a fyddai'n gwneud i chi deimlo'n fwy cyfforddus (e.e. mae'n well gan rai pobl siarad â swyddogion sydd ddim mewn lifrai, neu swyddogion o rywedd penodol). Ni allwn warantu unrhyw beth oherwydd ei fod yn dibynnu pwy sydd ar gael, ond fe wnawn ddilyn eich dewisiadau os gallwn ni.

Bydd y swyddog ymateb yn cofnodi'r hyn rydych yn ei ddweud mewn llyfryn o'r enw ROL gan ddefnyddio camera ar eu brest (o'r enw camera corff). Gallwch ofyn am beidio cael eich recordio gyda chamera corff - eich dewis chi ydyw.  Gellir defnyddio'r cofnod hwn fel tystiolaeth yn y llys.

Nid oes angen i chi siarad am y cam-drin rhywiol yn fanwl gyda'r swyddog cyntaf sy'n ymateb. Fodd bynnag, gwnaiff swyddog ofyn cwestiynau eang am yr hyn ddigwyddodd er mwyn cynorthwyo arwain yr ymchwiliad. Gall y cwestiynau deimlo'n uniongyrchol iawn, yn annifyr neu'n wirion. Mae hyn oherwydd maent angen gwirio pa gyfraith benodol maent yn feddwl sydd wedi'i thorri.

## FFORENSEG AC ARCHWILIAD MEDDYGOL

Os digwyddodd y cam-drin rhywiol lai nag wythnos yn ôl, gall yr heddlu gasglu eitemau er mwyn cynorthwyo profi'r hyn ddigwyddodd.  Chwiliwch: bit.ly/forensic-evidence am ragor o wybodaeth.

Dylai'r swyddogion egluro'r hyn maent yn ei gymryd a pham.  Mae gennych hawl i gael popeth yn ôl, ond gall gymryd amser hir.

Gallent hefyd ofyn a allent dderbyn swabiau a sampl troeth gan ddefnyddio cit tystiolaeth gynnar.  NI fydd y rhain yn swabiau preifat. Gwneir swabiau preifat yn y SARC gan feddyg.

Gall yr heddlu fynd â chi i **Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)**, lle gall meddyg gynnal **archwiliad meddygol fforensig (FME)**.

Gallwch wybod mwy am y Canolfannau hyn a'r archwiliad meddygol fforensig drwy chwilio bit.ly/SARC-info

# Yr Hyn Sy'n Digwydd ar ôl Hysbysu'r Heddlu

## DECHRAU'R YMCHWILIAD HEDDLU

Gwnaiff swyddog o'r tîm ymchwilio gysylltu â chi i ddechrau drwy ffonio er mwyn trafod y camau nesaf yn y broses ymchwilio.

Efallai gwnânt ofyn cwestiynau 'asesiad risg' er mwyn gwirio eich bod yn ddiogel

**Dylai'r swyddog ddweud wrthych sut i gael mynediad at wasanaethau cymorth** a gofyn a ydych eisiau iddynt eich cyfeirio chi at gymorth ISVA. Os nad ydy hyn yn digwydd, gweler tudalennau 2-5.

**Byddwch wedyn yn gwneud cytundeb dioddefwr gyda'r swyddog.** Mae'r cytundeb hwn yn dweud wrth yr heddlu sut a phryd y dylid cysylltu â chi. Os oes gennych ISVA eisoes erbyn hyn, dylid gwneud y cytundeb gyda'u mewnbwn hefyd.

Dylai'r heddlu wirio eich bod dal yn fodlon gyda'r cytundeb bob tro rydych yn siarad â nhw. Gallwch ddiweddaru eich dewisiadau unrhyw dro.

Mewn achosion o dreisio, eich SOLO dynodedig fydd eich prif bwynt cyswllt ar gyfer diweddariadau am yr ymchwiliad.

Ar gyfer achosion eraill, eich swyddog ymchwilio fydd hwn, ditectif gwnstabl fel arfer.

**Os nad ydych wedi gwneud cytundeb dioddefwr, gofynnwch amdano'r tro nesaf rydych yn siarad ag unrhyw swyddog heddlu neu eich ISVA.** Gallwch ddyfynnu'r llyfryn hwn er mwyn dweud y dylech wneud un.

**A fydd yr un/rhai o dan amheuaeth yn y carchar yn ystod ymchwiliad yr heddlu?**

Os cedwir un o dan amheuaeth yn y ddalfa yn ystod ein hymchwiliad, gelwir hyn yn **'remand'**. Os na chedwir un o dan amheuaeth yn y ddalfa ond ein bod yn cyfyngu lle gallent fyd a'r hyn allent ei wneud, gelwir hyn yn **'fechnïaeth'**. Mae rheolau llym ynghylch pryd gallwn ddefnyddio remand neu fechnïaeth.

**Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd yr un/rhai o dan amheuaeth ar remand neu ar fechnïaeth yn ystod ein hymchwiliad.** Holwch eich swyddog heddlu neu ISVA os nad ydych yn sicr beth mae hyn yn ei olygu i chi.

Os ydy'r un o dan amheuaeth yn cysylltu â chi neu dystion eraill yn yr achos, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym ni. Fe wnawn edrych os yw'n golygu y gallwn roi'r un o dan amheuaeth ar remand neu fechnïaeth.

# Eich Cyfweliad

Fe wnawn eich gwahodd chi i gyfweliad, lle gwnewch siarad yn fanwl am y cam-drin rhywiol. Yn aml, mae'r cyfweliad yn digwydd mewn ystafell wedi'i dylunio'n arbennig (o'r enw swît VRI).  Gall fod mewn SARC, gorsaf heddlu, neu adeilad arall.

Ffilmir y cyfweliad hwn fel arfer, a gellir chwarae'r fideo yn y llys os ydy'r achos yn mynd i'r fan honno. Gelwir y math hwn o gyfweliad yn **Cyfweliad Fideo wedi'i Recordio** (neu VRI). Mae rhai heddlu hefyd yn ei alw'n **gyfweliad ABE**, ond yr un peth ydyw.

Bydd eich SOLO a swyddog ymchwilio yn holi cwestiynau i chi yn ystod yr VRI.

Gall y cyfweliad fod yn broses anodd, oherwydd byddwch yn siarad am y cam-drin rhywiol mewn llawer o fanylion. Mae'n bwysig cael rhywun i'ch cynorthwyo chi wedyn, a gall fod yn ddefnyddiol peidio gwneud llawer am weddill y diwrnod.

Mae rhai pobl hefyd yn ei chael hi'n ddefnyddiol edrych ar 'ymarferion hanfodion', sy'n eich cynorthwyo chi ymdrin â theimladau dwys, cael eich llorio, neu gael pyliau o banig. Am fwy o wybodaeth am ymarferion hanfodion, chwiliwch: bit.ly/grounding-exercises

Gall siarad am y cam-drin rhywiol ddod ag atgofion newydd.  Os ydych yn cofio mwy o bethau ar ôl y cyfweliad, ysgrifennwch nhw lawr a'u hanfon at eich swyddog heddlu.

Mae gennych yr hawl i ofyn i ffrind neu aelod o'r teulu eistedd yn y cyfweliad hefo chi, os nad ydynt yn dyst yn yr achos.  Ni all eich cynorthwywr gyfrannu i'r cwestiynau cyfweld, ond gallent ofyn am egwylion a'ch cysuro chi mewn ffyrdd na all y cyfwelydd heddlu.

Os oes gennych ISVA, gallent eistedd tu allan i'r ystafell er mwyn eich cynorthwyo chi.  Ni all ISVA fod yn yr ystafell tra rydych yn siarad am yr hyn ddigwyddodd.

Er mwyn eich cynorthwyo chi deimlo mor gyfforddus â phosibl yn y cyfweliad, mae gennych yr hawl gofyn i'r swyddog heddlu yn rhywedd o'ch dewis.

O dan ddogfen o'r enw'r Cod Ymarfer y Dioddefwyr, rhaid i'r heddlu fodloni eich cais hyd nes maent yn meddwl y byddai'n gwneud yr ymchwiliad yn annheg.  Gallwch ddarllen mwy am y Cod Dioddefwyr drwy chwilio: bit.ly/victims-code

# Gweddill yr ymchwiliad (ar ôl eich cyfweliad)

## TYSTIOLAETH O'CH FFÔN A GWYBODAETH BREIFAT ARALL

Weithiau, gwnaiff yr heddlu ofyn am eich ffôn neu dystiolaeth ddigidol arall, fel eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Gall yr heddlu hefyd ofyn cael gweld cofnodion sydd gan asiantaethau gwahanol amdanoch chi, er enghraifft eich meddyg neu gyfryngau cymdeithasol (gelwir hyn yn **'ddeunydd trydydd parti'**).

Os ydy'r heddlu'n mynd â'ch teclyn digidol (e.e. eich ffôn neu gyfrifiadur), dylent ei ddychwelyd o fewn 24 awr.   Ar brydiau gall gymryd ychydig yn hirach, felly holwch eich swyddog heddlu am fframiau amser ac os gallwch gael un yn ei le.

Rydym yn deall fod gofyn am y math hwn o dystiolaeth yn gallu teimlo'n ymwthiol.

**Mae gennych hawliau os ydym yn gofyn i chi am dystiolaeth ddigidol neu ddeunydd trydydd parti.**

**Cyn i swyddog heddlu ofyn am eich ffôn neu dystiolaeth breifat arall, dylent fod yn sicr ei fod yn bwysig i'r achos.**

Yn iaith y gyfraith, dylai'r dystiolaeth a ofynnir amdani fod yn "gwbl angenrheidiol a chymesur", a dylai fod o gymorth gydag "ymholiad rhesymol". Rhaid bod "sylfaen hysbys iawn" ar gyfer meddwl bod tystiolaeth berthnasol ar declyn digidol. Dylai mynd â'ch ffôn neu gael deunyddiau trydydd parti ond digwydd os nad oes ffordd arall o gael y wybodaeth.

**Pan mae'r swyddog heddlu yn gofyn am eich gwybodaeth breifat, rhaid iddynt ddweud wrthych chi pam ei bod yn bwysig. Rhaid i'r swyddog hefyd ddweud wrthych sut y gwnânt osgoi cymryd gormod o'ch gwybodaeth breifat.**

Dylech hefyd ddisgwyl i'r heddlu ond edrych ar wybodaeth sy'n amlwg yn berthnasol i'ch achos, er enghraifft data am eich lleoliad neu negeseuon rhyngoch chi a'r un o dan amheuaeth.

Yn aml, bydd yr heddlu ond yn edrych ar wybodaeth o fewn fframiau amser penodol, er enghraifft negeseuon rhwng dau ddyddiad perthnasol.

**Dylai'r swyddog heddlu roi ffurflen i chi ei llofnodi sy'n egluro:**

- Pa wybodaeth breifat maent eu hangen (e.e. cofnodion eich ffôn neu feddyg), sut mae'n berthnasol ac yn gwbl angenrheidiol, a sut y bydd yn gyfyngedig (e.e. yn ôl ffrâm amser neu'r math o ddata)
- Sut gwnaiff yr heddlu lawrlwytho ac yna storio eich gwybodaeth.  Dylai hyn gynnwys pwy fydd yn gallu gweld eich gwybodaeth a gall gynnwys pryd y caiff ei ddileu.
- Gyda phwy wnânt rannu eich gwybodaeth breifat (e.e. cyfreithwyr yr erlyniad, yr un o dan amheuaeth, cyfreithwyr yr un o dan amheuaeth, y llysoedd)

# Gweddill yr ymchwiliad (ar ôl eich cyfweliad)



**Dylai'r swyddog heddlu ofyn am eich caniatâd cyn eu bod yn edrych ar unrhyw wybodaeth breifat sy'n eiddo i chi.**

Nid oes rhaid i chi gytuno rhannu eich gwybodaeth breifat gyda ni. Dywed y gyfraith na allwn stopio ymchwiliad yn bennaf oherwydd nad ydych yn rhannu eich gwybodaeth.  Fodd bynnag, gall y GEG ofyn i lys adael i ni weld eich gwybodaeth heb eich caniatâd os ydynt wedi cyhuddo'r un o dan amheuaeth.  Os ydy hyn yn digwydd, mae gennych yr hawl i gyfreithiwr rannu eich safbwyntiau gyda'r llys.

## YR YMCHWILIAD HEDDLU PARHAUS



**Wedi llawer iawn o weithgarwch, gall deimlo fel bod yr ymchwiliad heddlu'n mynd yn dawel yn sydyn.** Bydd y swyddog heddlu sy'n ymchwilio eich achos yn casglu'r dystiolaeth, er enghraifft yn cyfweld yr un o dan amheuaeth a thystion eraill.  Gall casglu'r dystiolaeth gymryd amser hir - blwyddyn neu fwy mewn rhai achosion.

Gwnaiff eich swyddog heddlu eich diweddaru yn unol â'ch cynllun cyfathrebu, fel **y gallwch benderfynu os hoffech glywed gan yr heddlu'n rheolaidd neu dim ond pan mae rhywbeth yn newid yn eich achos.** Gallwch newid eich cynllun cyfathrebu unrhyw dro. Holwch eich swyddog heddlu



Gall y rhan hon o'r ymchwiliad deimlo'n rhwystredig ac araf. Mae'n ddefnyddiol cael cymorth gan ISVA neu weithiwr cymorth arbenigol arall er mwyn eich cynorthwyo chi ymdopi.

Gweler tudalennau 5-8 am fwy o wybodaeth am wasanaethau cymorth a siaradwch â'ch swyddog heddlu os ydych eisiau cymorth er mwyn cael mynediad at gymorth.  Mae gennych hawl i gymorth, hyd yn oed os ydych eisiau stopio'r ymchwiliad heddlu.

**Beth sy'n digwydd os wyf yn newid fy meddwl a ddim bellach yn dymuno i'r heddlu ymchwilio fy achos?** Weithiau mae dioddefwyr yn penderfynu nad ydynt eisiau parhau gyda'r ymchwiliad am sawl rheswm.  Mae hyn yn bersonol i chi ac yn benderfyniad gallwch ei wneud unrhyw bryd. Os ydych yn ansicr, siaradwch â'ch SOLO, ymchwilydd neu ISVA.

Os ydych yn penderfynu eich bod yn dymuno tynnu eich cwyn yn ôl, gelwir hyn yn wrthdyniad.  Gall swyddog ofyn i chi lofnodi datganiad neu anfon e-bost fel cadarnhad ysgrifenedig nad ydych bellach eisiau cynorthwyo'r ymchwiliad heddlu ac nad ydych eisiau mynd i'r llys a'r rhesymau am eich penderfyniad.

Weithiau gall yr heddlu benderfynu os oes ganddynt ddigon o dystiolaeth er mwyn parhau gydag erlyniad heb eich cymorth. Ond mae hyn yn brin ac fe'i eglurir i chi pe penderfynwyd hyn.

Unwaith rydych wedi tynnu eich cwyn yn ôl, anfonir eich achos at y Ditectif Arolygydd er mwyn adolygu a phenderfynu os dylid cau neu barhau gyda'r achos.

Gallwch newid eich meddwl UNRHYW dro yn y dyfodol a gofyn i'r achos gael ei ailagor eto.

# Penderfyniadau'r Heddlu a Chanlyniadau'r Achos

## SUT MAE'R HEDDLU'N PENDERFYNU AR YR HYN I'W WNEUD GYDA'CH ACHOS

Unwaith rydym wedi gorffen casglu'r dystiolaeth, rydym yn penderfyn os gellir anfon eich achos at **Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG).** Mae GEG yn gyfreithwyr sy'n penderfynu os dylid mynd â'r un o dan amheuaeth i'r llys (gelwir hyn yn 'gyhuddo').

Mae rheolau llym ynghylch pryd gallwn anfon achos at GEG. Gallwch ddarllen am reolau GEG drwy chwilio: **bit.ly/CPS-decisions**

Gallwn ond gofyn i GEG fynd â rhywun i'r llys os yw'n fwy tebygol y bydd y rheithgor yn canfod yr un o dan amheuaeth yn euog na dieuog. Yn y llys, gofynnir i'r rheithgor edrych ar dystiolaeth a phenderfynu os ydynt yn sicr fod yr un o dan amheuaeth yn euog.  Os ydy rheithgor yn meddwl fod yr un o dan amheuaeth yn euog ond nad ydynt yn sicr, ni allent ganfod yr un o dan amheuaeth yn euog.

Ni ellir defnyddio rhywfaint o'r wybodaeth a gasglwn yn ystod ymchwiliad yn y llys. Felly ni fydd yn cael ei gyfrif fel 'tystiolaeth' yn gyfreithiol. Er enghraifft, ni allwn ddefnyddio gwybodaeth rydych wedi'i dderbyn gan bobl eraill fel arfer.

## Canlyniadau posibl yn eich achos

### 1. Yr heddlu yn 'peidio gweithredu ymhellach (NFA)

Gwnewch dderbyn llythyr yn egluro'r penderfyniad a'ch opsiynau nesaf.

### 2. Yr heddlu'n anfon eich achos at GEG

2a) Y GEG yn anfon yr achos yn ôl er mwyn ymchwilio fwy

2b) GEG yn penderfynu 'dim gweithredu ymhellach'

2c) GEG yn cyhuddo'r un o dan amheuaeth

# Penderfyniadau'r Heddlu a Chanlyniadau'r Achos

Os ydy'r heddlu neu GEG yn penderfynu 'dim gweithredu ymhellach' yn erbyn yr un o dan amheuaeth, mae'n golygu na fyddant yn mynd i'r llys neu gael eu 'cyhuddo'. Mae gennych hawl i herio'r penderfyniad o dan rywbeth o'r enw **Hawl Dioddefwr i Adolygiad (VRR).**

Rhaid i ni ddweud wrthych chi am y cynllun VRR mewn llythyr. Gwnaiff y llythyr hefyd egluro pam rydym wedi penderfynu dim gweithredu ymhellach.

Rhaid i'r apêl gael ei wneud o fewn tri mis o benderfyniad yr heddlu i beidio cyfeirio eich achos at GEG am gyhuddiad.

Er mwyn ceisio adolygiad, bydd angen i chi roi'r wybodaeth:

- enw llawn
- cyfeiriad llawn a chod post
- rhif ffôn a rhif cyfeirnod e-bost
- rhif cyfeirnod trosedd
- manylion y drosedd
- lleoliad y drosedd (os yn berthnasol)
- hoff ddewis o gyswllt (ffôn, e-bost, neu'n ysgrifenedig)

Ar-lein: Drwy e-bostio: VictimsRight2Review@nthwales.pnn.police.uk

Drwy'r post: Gallwch ofyn am adolygiad drwy'r post, drwy anfon y wybodaeth hon at:

Hawl Dioddefwr i Adolygiad
Gweinyddu Cyfiawnder
Heddlu Gogledd Cymru
Ffordd William Morgan
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0HQ

Beth bynnag fo'r canlyniad, fe wnawn ysgrifennu atoch chi yn cadarnhau penderfyniad y canlyniad, oni bai y byddai'n amhriodol gwneud, neu os ydych wedi gofyn fel arall.

Rydym yn anelu cwblhau'r adolygiad a dweud y canlyniad wrthych chi o fewn 30 o ddyddiau gwaith.

Gall ISVA neu gynorthwywr arall eich cynorthwyo chi herio penderfyniadau gyda VPR. Darllenwch t.2 os nad oes gennych gymorth ISVA ar hyn o bryd ond yn hoffi gwybod mwy.

# Penderfyniadau'r Heddlu a Chanlyniadau'r Achos

## YR HYN SY'N DIGWYDD OS YDY GEG YN 'CYHUDDO' RHYWUN O DAN AMHEUAETH

Os **'cyhuddir''** rhywun o dan amheuaeth (sy'n golygu'n ffurfiol eu bod yn mynd i'r llys), rydym weithiau'n gofyn i lys eu rhoi mewn carchar tan yr achos (gelwir hyn yn 'remand'). Gallwn ond gwneud hyn os ydym yn meddwl os gwnaiff yr un o dan amheuaeth un o'r canlynol:

a) peidio troi fyny yn y llys.

b) troseddu eto cyn yr achos.

c) brifo un ai eu hunain neu rywun arall.

Yn y mwyafrif o achosion, bydd yr un o dan amheuaeth 'ar fechniaeth', sy'n golygu y byddant yn disgwyl am yr achos gartref. Ond mae cyfyngiadau ar lle gallent fynd a gyda phwy gallent siarad (gelwir hyn yn **'amodau mechnïaeth'**). e.e., fel arfer, dywedir wrth rywun o dan amheuaeth i beidio cysylltu â chi na'ch ffrindiau. Dywedwch wrthym ni os oes unrhyw beth arall y dylem ofyn i'r un o dan amheuaeth beidio gwneud.

**Ni fyddwch yn y llys am unrhyw wrandawiadau er mwyn penderfynu os ydy'r un o dan amheuaeth ar fechnïaeth neu remand.** Rhaid i ni ddweud wrthych chi os fydd yr un o dan amheuaeth ar fechnïaeth neu remand.

O gwmpas yr un amser, bydd yr un o dan amheuaeth yn mynd i'r llys a dweud wrth farnwr os ydynt yn euog neu'n ddieuog. Gelwir hyn yn **'wrandawiad ple'**.

Gall gwrandawiadau (cyfarfodydd) eraill fod yn y llys am yr achos. Byddant am broblemau technegol neu ddyddiadau penderfynu ar gyfer y camau nesaf.

**Ni fyddwch yn y llys am unrhyw wrandawiadau er mwyn penderfynu os ydy'r un o dan amheuaeth ar fechnïaeth neu remand.** Mae'r gwrandawiadau hyn ond yn cymryd ychydig funudau fel arfer.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

**Yr un o dan amheuaeth yn pledio'n euog**

**Dedfrydu**

**Yr un o dan amheuaeth yn pledio'n ddi-euog**

**Achos llys**

- Y rheithgor yn penderfynu ar ddedfryd 'euog'
- Y rheithgor yn penderfynu ar ddedfryd 'dieuog'
- Y rheithgor yn methu penderfyn (achos llys eto)

**Os ydy'r un o dan amheuaeth yn dweud eu bod yn ddieuog:**

Gall gymryd misoedd rhwng yr un o dan amheuaeth yn pledio'n ddieuog a'r achos llys lle mae rheithgor yn penderfynu ar yr achos. Cewch gynnig cymorth gan dîm heddlu arbennig o'r enw'r **'Uned Gofal Tystion' (neu'r WCU).**

# Penderfyniadau’r Heddlu a Chanlyniadau’r Achos

## MYND I’R LLYS (ACHOS)

**Os ydy’r un o dan amheuaeth yn dweud eu bod yn ddieuog:**

Tra rydych yn disgwyl am yr achos llys, gwnaiff yr **Uned Gofal Tystion** eich diweddaru chi os oes unrhyw newidiadau ac fe wnant ddweud wrthych pa ddyddiadau i fynd i’r llys.  Gallent drefnu i chi ymweld ag adeilad y llys cyn yr achos llys fel eich bod yn gwybod yr hyn i’w ddisgwyl.  Gellir gwneud hyn hefyd gyda’ch ISVA yn bresennol.

Mae’n gyffredin i ddyddiad yr achos llys newid sawl gwaith. Weithiau, gall achosion hyd yn oed gael eu hoedi ar y diwrnod mae pawb yn cyrraedd y llys ar gyfer yr achos.  Gall yr un o dan amheuaeth hefyd bledio’n euog ar y bore mae’r achos llys i fod i ddechrau.

**Mae gennych hawl i gymorth yn yr achos llys. Gelwir hwn yn ‘fesurau arbennig’.** Chwiliwch bit.ly/Special-measures am fwy, neu gwyliwch fideos ar: youtu.be/DmZHeSFnhfc

Dylai’r Uned Gofal Tystion, eich ISVA a’ch swyddog heddlu siarad â chi am fesurau arbennig.  Os nad ydynt wedi gwneud cyn yr achos llys, gofynnwch i un ohonynt ddweud wrthych chi am fesurau arbennig.

**Ni fyddwch yn y llys am y rhan fwyaf o’r achos llys.**

Byddwch yn aros mewn ystafell ar wahân i ffwrdd o weddill y llys gyda’ch ISVA os oes gennych un.  Gall eich ISVA fod yn bresennol yn y llys a’ch cynorthwyo chi drwy’r achos llys.

Gallwch hefyd ofyn rhoi eich tystiolaeth o ystafell cyswllt fideo o ymhell i ffwrdd o adeilad y llys.  Mae’r cyfleusterau hyn mewn lleoliadau diogel, i ffwrdd o’r llys, ar gael mewn 3 lleoliad ledled Gogledd Cymru (Wrecsam, Llangefni a Dolgellau)

Byddech yn rhoi eich tystiolaeth drwy gyswllt cyfrifiadur diogel a welir yn ystafell y llys. Cewch eich holi drwy’r cyswllt hwn.

Byddwch yn gallu edrych ar eich datganiad neu gyfweliad heddlu fel ei bod yn fyw yn eich cof. Un o’r ‘mesurau arbennig’ gallwch eu dewis ydy chwarae eich cyfweliad fideo yn y llys yn hytrach na dechrau eich tystiolaeth o’r dechrau.

Y peth nesaf ydy bydd cyfreithiwr yr un o dan amheuaeth yn eich holi ac yn eich herio am yr hyn rydych wedi’i ddweud.    Gall y rheithgor a phobl eraill fod yn y llys, neu efallai bydd hon yn sesiwn wedi’i recordio cyn y prif achos llys.

Mae cael eich holi gan gyfreithiwr yr un o dan amheuaeth yn brofiad anodd. Mae’n bwysig cael rhywun i’ch cynorthwyo chi wedyn, a gall fod yn ddefnyddiol peidio gwneud llawer am weddill y diwrnod.

Gwnaiff eich ymchwilydd ofyn am bob mesur arbennig a gwnaiff yr heddlu benderfynu caniatáu’r cais ar sail eich achos.

# Penderfyniadau’r Heddlu a Chanlyniadau’r Achos

**Os ydy’r un o dan amheuaeth yn pledio’n euog NEU os ydy’r rheithgor yn dyfarnu’r un o dan amheuaeth yn euog:**

**Bydd yr un o dan amheuaeth yn cael ei ddedfrydu rwan.** Gall y gwrandawiad hwn ddigwydd yn syth, neu gellir ei wneud wedyn oherwydd bod y llys angen mwy o wybodaeth.

Os ydych eisiau, gallwch ysgrifennu Datganiad Personol Dioddefwr (VPS). Mae VPS fel llythyr i’r llys am sut y gwnaeth cam-drin rhywiol wneud i chi deimlo a sut mae wedi’ch effeithio chi. Dewch i wybod mwy drwy chwilio bit.ly/Victim-Personal-Statement

Darllenir hyn yng ngwrandawiad y dedfrydu - gallwch hyd yn oed dewis ei ddarllen os ydych eisiau.  Dylech wybod gall unrhyw beth rydych yn ei ddarllen yn y VPS fod yn unrhyw adroddiad newyddion am eich achos (er na chewch eich enwi).

# Canlyniadau Posibl Eraill

## DEFNYDDIO ‘GORCHYMYN SIFIL’ ER MWYN ATAL YR UN O DAN AMHEUAETH RHAG CYSYLLTU Â CHI

Os ydy’r un o dan amheuaeth yn ceisio cysylltu â chi neu’ch aflonyddu chi, yna gallwch chi a’r heddlu allu ymgeisio am ‘orchymyn sifil’.

Mae llawer o wahanol fathau o orchmynion sifil, ond mae’r mwyafrif yn ceisio stopio’r un o dan amheuaeth rhag cysylltu â chi.  Cewch wybod mwy ar wefan GEG.  Chwiliwch: bit.ly/CPS-guidance

Gall eich swyddog heddlu (y mae eu manylion ar dudalen gyntaf y llyfryn hwn) siarad â chi am yr opsiynau. Gall eich ISVA neu weithiwr cymorth gynorthwyo hefyd.

Gwaith yr heddlu ydy rhoi gorchmynion sifil mewn lle (e.e., Hysbysiad Gwarchod Trais Domestig, neu DVPN). Gallwch hefyd gael cyfreithiwr i’ch cynorthwyo chi ymgeisio am orchmynion sifil eraill heb yr heddlu.

Mae gwybodaeth ynghylch cael cyfreithiwr am ddim neu fforddiadwy ar wefan Cyngor ar Bopeth.  Chwiliwch: bit.ly/affordable-legal-help

## YMGEISIO AM IAWNDAL

Pan ydych yn hysbysu’r heddlu am dreisio neu ymosodiad rhywiol, gallwch gael iawndal o’r **Cynllun Iawndal Anafiadau Trosedd (neu CICS)**.

Daw’r arian hwn gan y Llywodraeth ac nid yr un o dan amheuaeth.  Nid yw’n costio dim i ymgeisio.

Gall eich ISVA eich cynorthwyo chi ymgeisio.

Nid oes angen i’r un o dan amheuaeth gael eu cyhuddo na’u heuogfarnu er mwyn i chi gael iawndal, ond mae rhai rheolau.  Eglurir y rheolau hyn ar wefan yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol drwy chwilio: bit.ly/CICA-compensation

Mae fideos defnyddiol ynghylch cael iawndal ar y wefan Cymorth Dioddefwyr ar: bit.ly/CICA-videos

Gallwch ddewis ffrind neu aelod o’r teulu i wneud cais ar eich rhan.  Gallwch hefyd gael cyngor a chymorth gan eich ISVA neu weithiwr cymorth.

# Cysylltiadau a Dolenni Defnyddiol

## SUT I ROI ADBORTH NEU GODI PRYDERON

Rhowch wybod i'ch swyddog heddlu os oes gennych unrhyw bryderon am eich achos neu sut rydym yn ymchwilio - gallwch e-bost neu ffonio gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddir i chi (ar ddechrau'r llyfryn hwn).

Gall ISVA neu gynorthwywr arall eich cynorthwyo chi wneud hyn. Darllenwch t.2 os nad oes gennych gymorth ISVA ar hyn o bryd ond yn hoffi gwybod mwy.

Fel arall, gallwch roi adborth drwy eich ISVA

Os ydych eisiau codi pryderon am eich swyddog heddlu, cysylltwch â'u goruchwyliwr. Manylion cyswllt y goruchwyliwr ydy:

Enw'r goruchwyliwr:

E-bost:

Ffôn:

O dan y Cod Arfer Dioddefwyr, mae gennych hawl cwyno os ydych yn meddwl nad ydym yn eich trin yn gywir.

Dywed y Cod fod gennych hawl:

- cael eich trin gyda pharch, urddas, sensitifrwydd a thosturi,
- cael eich gwarchod rhag dioddef eto, eich dychryn a rhag rhai'n talu'r pwyth yn ôl,
- parchu eich preifatrwydd,
- cynorthwyo deall ac ymgysylltu gyda'r broses cyfiawnder troseddol heb wahaniaethu.

Ceir rhestr lawn o'ch hawliau drwy chwilio: **bit.ly/victims-code**

Gall ISVA neu gynorthwywr arall eich cynorthwyo chi wneud cwyn. Darllenwch t.2 os nad oes gennych gymorth ISVA ar hyn o bryd ond yn hoffi gwybod mwy.

# Cysylltiadau a Dolenni Defnyddiol

Gallwch wneud cwyn ffurfiol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.  Gall ISVA neu gynorthwywr arall eich cynorthwyo chi wneud cwyn.

**Cwynion HGC:**

Gwefan: Cwynion | Heddlu Gogledd Cymru |
North Wales Police @Prof Standards Enquiries

E-bost: **@Prof Standards Enquiries**

Eich Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh):

Etholir y CHTh gan y cyhoedd er mwyn penderfynu ar gyllidebau'r heddlu a dwyn yr heddlu'n atebol yn eich ardal leol.

Gwefan: Cysylltu â ni | Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru **(northwales-pcc.gov.uk)**

E-bost: **OPCC@northwales.police.uk** Ffôn: 01492 805486

IOPC
Independent Office for Police Conduct

Os ydych yn anhapus gyda sut wnaeth yr heddlu ymateb i'ch cwyn, gallwch ofyn am adolygiad gan sefydliad annibynnol:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**

Mae'r IOPC yn sefydliad annibynnol sy'n goruchwylio cwynion am yr heddlu.

**https://www.policeconduct.gov.uk/complaints-reviews-and-appeals/reviews-and-appeals**

Post: PO Box 473, Sale, M33 0BW

Ffôn: 0300 020 0096

E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

# Mwy o Ddolenni er Gwybodaeth Ychwanegol

Ministry of Justice

Cod Ymarfer Dioddefwyr
Chwiliwch: bit.ly/victims-code

VS VICTIM SUPPORT

Porth gwybodaeth Cymorth Dioddefwyr
Chwiliwch: www.mysupportspace.org.uk/moj

CPS

Canllawiau GEG i'w prosesau
Chwiliwch: bit.ly/CPS-guidance

RIGHTS of WOMEN helping women through the law

Llawlyfr O Hysbysu i'r Llys
Chwiliwch: bit.ly/report-to-court

women's aid until women & children are safe

Llawlyfr Goroeswr Cymorth i Ferched
Chwiliwch: bit.ly/Survivors-HandbooK

THE SURVIVORS TRUST

Llinellau cymorth cenedlaethol: Trais rhywiol
Chwiliwch: bit.ly/SV-helplines

women's aid until women & children are safe

Cymorth cenedlaethol: Trais domestig
Chwiliwch: bit.ly/DV-support

# Nodiadau

88601

Mae ffurflenni a dogfenni
ar gael yn Gymraeg
Forms and documents
are available in Welsh

Cymraeg